mudiad meithrin

arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

# Pecyn Cymorth Gwrth-hiliaeth

## ar gyfer Cylchoedd Meithrin a Lleoliadau Gofal Plant, Chwarae a Dysgu Sylfaen

APEX EDUCATE
ANTI-RACISM CONSULTANCY

DARPL

Mae Mudiad Meithrin wedi ymrwymo i'r gwaith o greu Cymru Wrth-hiliol ac yn cefnogi'n llawn y Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol. Nid ydym yn goddef hiliaeth a chredwn fod dyletswydd arnom i wneud ein rhan i drawsnewid cymdeithas er budd y plant sy'n mynychu ein lleoliadau a'u dyfodol hwythau fel dinasyddion Cymru.

Yn 2020, daeth llofruddiaeth George Floyd â'r ymgyrch Black Lives Matter i sylw byd-eang. Gorfodwyd unigolion i ystyried effeithiau hiliaeth mewn cymdeithas a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wrth-hiliol, gyda sefydliadau'n edrych ar ba mor effeithiol ydyn nhw o ran adnabod a mynd i'r afael â hiliaeth.

Mae gwrth-hiliaeth yn bwysig iawn yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant a chwarae.

> ***"Mae angen i bawb sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar leoliad blynyddoedd cynnar ddeall cymaint â phosibl am sut i ddelio â hiliaeth gan ei bod bron yn sicr y byddant yn dod ar ei thraws ym mywydau, syniadau ac iaith plant ifanc a'u rhieni."***

**(Smidt, 2020.)**

## Beth yw hiliaeth?

Hiliaeth yw'r gred bod gwahanol hiliau yn meddu ar nodweddion, galluoedd neu rinweddau gwahanol, yn enwedig at y diben o'u gwahaniaethu fel israddol neu'n well na'i gilydd.

## Beth yw gwrth-hiliaeth?

Mae gwrth-hiliaeth yn cyfeirio at fath o weithredu yn erbyn casineb hiliol, rhagfarn, hiliaeth systemig, a gormesu grwpiau ymylol. Mae gwrth-hiliaeth fel arfer wedi'i strwythuro o amgylch ymdrechion ymwybodol a chamau gweithredu bwriadol i ddarparu cyfleoedd teg i bawb ar lefel unigol a systemig.

## Beth yw tegwch hil?

Beth yw tegwch hil? Mae tegwch hil yn digwydd pan fydd sefydliadau'n rhoi cyfle cyfartal i bobl o bob hil. Mewn geiriau eraill, mae sefydliadau'n sicrhau tegwch cyfreithiol, moesol a gwleidyddol i unigolion heb ystyried nodweddion corfforol fel lliw croen.

# Dysgu Proffesiynol

Mae Mudiad Meithrin yn argymell dysgu proffesiynol gwrth-hiliol ar gyfer pob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant. Mae nifer o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol drwy gydol y flwyddyn. Ar wefan Mudiad Meithrin gallwch ddod o hyd i gyrsiau hunan-astudio a ddatblygwyd gan DARPL (*Diversity and Anti Racist Professional Learning*) a CWLWM. Mae'r gyfres hon o hyfforddiant wedi'i hanelu at ymarferwyr a dylid eu cynnal i roi cyd-destun cyn i chi weithio drwy'r pecyn cymorth archwilio hwn.

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn:

- Bydd y pecyn cymorth hwn yn cymryd amser sylweddol i chi ei ddarllen a gweithio drwyddo. Mae arweinyddiaeth wrth-hiliol yn waith heriol ac ymrwymiad gwerthfawr.
- Neilltuwch amser i chi a'ch cydweithwyr allu ystyried bob un o'r chwe egwyddor yn y tabl isod a defnyddio'r cwestiynau fel ffordd o feddwl sut mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori yn eich lleoliad.
- Defnyddiwch grid y cynllun gweithredu i nodi eich ymateb i'r cwestiynau a godwyd. Nid oes unrhyw atebion cywir nac anghywir. Nod y cwestiynau yw i chi ystyried yr hyn rydych chi'n ei wneud yn barod a'ch helpu i nodi eich camau nesaf yn y tymor byr, canolig a hir.
- Penderfynwch pa egwyddor(ion) a chamau penodol yr hoffech eu blaenoriaethu dros y 6 mis, 6-12 mis, a 2 flynedd nesaf.
- Defnyddiwch grid y cynllun gweithredu i gofnodi pa gamau y byddwch yn eu cymryd i symud ymlaen ar eich taith wrth-hiliol.
- Nodwch beth fydd llwyddiant ac effaith y gweithredu? Beth sydd angen i chi ei roi ar waith i sicrhau bod pob gweithred yn cael ei chyflawni? Pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am bob un o'r gweithredoedd? Sut fyddwch chi'n monitro cynnydd ac yn adolygu'r gweithredoedd? Sut fyddwch chi'n mesur eu heffaith ymhen 6 mis, 12 mis, 2 flynedd?

Am ragor o help gyda'ch arweinyddiaeth wrth-hiliol a dysgu proffesiynol, cysylltwch â thîm polisi'r Mudiad Meithrin: polisi@meithrin.cymru neu DARPL@cardifmet.ac.uk

# Gwybodaeth Ehangach

Mae ymarfer cynhwysol yn cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth plant a theuluoedd, ac yn sicrhau eu bod yn derbyn triniaeth, cynrychiolaeth, cyfleoedd a pharch teg. Mae ymarfer cynhwysol yn parchu ac yn ymateb i brofiadau unigryw plant a'u teuluoedd, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth priodol i gymryd rhan lawn mewn dysgu. Yn ystod eu hamser gyda ni, mae'n hanfodol bod plant yn teimlo'n hyderus yn pwy ydyn nhw. Gall gweithredu arfer cynhwysol o fewn ein dull addysgeg sicrhau bod gan bob plentyn ymdeimlad cryf o berthyn, gan deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli yn ein lleoliad, a'u bod yn cael cyfle cyfartal i ffynnu. (Llywodraeth Cymru 2022a, t. 44).

> "Gall datblygu stereoteipiau negyddol am bobl o leiafrifoedd ethnig ddechrau mor gynnar â phedair oed; felly gall hyd yn oed y rhai sy'n credu nad ydynt yn hiliol fod wedi ymgorffori stereoteipiau a allai, os cânt eu cyfuno â sefyllfa o bŵer, arwain at ymddygiad negyddol tuag at bobl o leiafrifoedd ethnig. Gall natur dreiddiol hiliaeth effeithio ar bob person o leiafrifoedd ethnig, gwaeth beth fo'u safle a'u hynafedd, a gellir ei luosi o'i gyfuno â ffynhonnell arall o ormes e.e. oherwydd rhyw neu anabledd." (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 11).

"Mae Cymru yn gymdeithas amlddiwylliant sy'n cynnwys nifer o ethnigrwyddau, ieithoedd a chrefyddau. Mae ganddi hanes hir a chyfoethog o amrywiaeth, gan ei bod yn gartref i un o'r cymunedau hynaf o bobl Ddu yn Ewrop, ac mae ei datblygiad, ei hymdrechion i greu cyfoeth, ei hysbryd a'i chysylltiadau rhyngwladol yn adlewyrchu cyfraniadau cryf gan gymunedau lleiafrifol ddoe a heddiw. Mae hanes Cymru yn hanes o wahaniaeth ac amrywiaeth. Nid yw amrywiaeth ethnig yn fygythiad i Gymru, ond yn hytrach, yn rhan o'i chymeriad hanesyddol. Mae deall hynny yn hanfodol i hunaniaeth dysgwyr. Dylai cydnabod hyn helpu pawb i deimlo eu bod yn perthyn i Gymru." (Llywodraeth Cymru, 2021, t. 20).

> ***"Dyw hi byth yn rhy gynnar i siarad am wrth-hiliaeth gyda phobl ifanc."***
>
> **(Belly, 2020)**

## Nodyn o rybudd

Mae angen cydnabod nad yw aelodau unigol o staff na phlant a'u teuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli yr holl bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac felly ni ddylid disgwyl iddynt fod yn llais yr holl bobl hynny.

## Cydnabyddiaeth

Mae DARPL a'r Mudiad Meithrin yn dymuno cydnabod bod y pecyn cymorth hwn yn addasiad yn seiliedig ar adnodd a grëwyd gan: Gwasanaeth Cynhwysiant Blynyddoedd Cynnar Cyngor Tower Hamlets.

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio'n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 1:**<br>**Gweld yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd o werth cyfartal.**<br><br>**Meithrin perthynas gyda'r plentyn a'r teulu.** | • A yw pob plentyn yn cael ei drin â'r un pryder a pharch?<br>• A yw pob teulu newydd yn cael eu gwneud i deimlo'n arbennig pan fyddant yn derbyn croeso i'ch lleoliad?<br>• Ydych chi'n defnyddio'r cyfnod ymgartrefu i ddarganfod mwy am amrywiaeth eich teuluoedd – eu diwylliannau, traddodiadau, crefyddau, ieithoedd?<br>• Ydych chi'n cofnodi gwybodaeth ddiwylliannol a chrefyddol wrth eu derbyn, gan gynnwys diet, arferion, gwyliau ac arferion addoli?<br>• Ydych chi'n teimlo bod cefndiroedd ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol teuluoedd yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried yn asedau cadarnhaol i'r lleoliad wrth edrych o gwmpas yr amgylchedd a gwrando ar ryngweithiadau?<br>• A ydych yn arsylwi ac yn ymateb i lefelau lles a chyfranogiad plant fel bod cyfleoedd dysgu'r dyfodol yn diwallu eu hanghenion?<br>• A yw arweinwyr/rheolwyr yn cymryd amser i fonitro a gwerthuso ansawdd y berthynas gyda rhieni/teuluoedd, y gymuned ac o fewn y tîm?<br>• Ydych chi'n gofyn i rieni a gofalwyr rannu geiriau ac ymadroddion iaith gartref y plentyn i chi eu defnyddio a'u rhannu yn y lleoliad a dangos eich bod yn gwerthfawrogi eu hiaith a'u diwylliant?<br>• Pa mor dda ydw i'n rhannu gwybodaeth berthnasol am blant a'u teuluoedd gyda staff? (Llywodraeth Cymru (2022), t. 46. Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael trwy: [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.]<br>• A oes gan ymarferwyr yr hyder i siarad â phlant a theuluoedd am amrywiaeth, cynwysoldeb a gwrth-hiliaeth? | Mae Safon 16 o'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol] ar gyfer gofal plant a reoleiddir yn nodi y dylai 'pob plentyn yn cael ei drin â'r un pryder a pharch.' (Llywodraeth Cymru, 2023, t. 51)<br><br>Erthygl 3 o'r [CCUHP]: "Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn." (Comisiynydd Plant Cymru, 2024).<br><br>Erthygl 8 o'r [CCUHP]: "Dylai'r llywodraeth barchu eich hawl i enw, cenedligrwydd a theulu." (Comisiynydd Plant Cymru, 2024).<br><br>Erthygl 14 o'r [CCUHP]: 'Eich hawl i ddilyn eich crefydd eich hun' (Comisiynydd Plant Cymru, 2024).<br><br>Erthygl 30 o'r [CCUHP]: 'Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun' (Comisiynydd Plant Cymru, 2024). | | | |

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio'n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 2:** **Adnabod a pharchu gwahaniaeth.** | • Ydych chi'n cynllunio'n weithredol i helpu plant i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion, h.y. gwneud ffrindiau newydd, darparu cyfleoedd i blant drafod a chydweithio â'u cyfoedion?<br>• A yw ymarferwyr yn annog plant i fod yn chwilfrydig am wahaniaethau yn y byd o'u cwmpas?<br>• A yw ymarferwyr yn annog plant i siarad am liwiau'r croen, strwythurau teuluol neu anableddau, a'u dangos yn eu darluniau a'u paentiadau?<br>• A yw ymarferwyr yn siarad yn gadarnhaol am y gwahaniaeth yn y llyfrau maen nhw'n eu rhannu â phlant?<br>• A yw ymarferwyr yn siarad yn agored ac yn ffeithiol am y ffyrdd y gall unigolion a theuluoedd fod yn wahanol i'w gilydd, gan osgoi defnyddio'r gwahaniaethau hynny fel label?<br>• A yw ymarferwyr yn defnyddio straeon i gefnogi plant i feddwl am faterion cymhleth a datblygu empathi?<br>• A yw ymarferwyr yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, gadarnhaol gyda'r adnoddau amrywiol yn eich lleoliad?<br>• A yw ymarferwyr yn siarad â phlant os ydynt yn sylwi eu bod yn ymateb yn negyddol i rai adnoddau neu gymeriadau mewn llyfrau?<br>• Ydych chi'n ystyried arferion personol, diwylliannol a chrefyddol wrth gynllunio teithiau?<br>• A oes gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel a dyheadau ar gyfer plant o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Aml-ethnig? | "Rydyn ni'n gwybod bod eu hamgylchedd a'r oedolion o'u cwmpas yn dylanwadu ar blant a'u bod yn dysgu o bopeth maen nhw'n ei weld, ei glywed a'i wneud.<br>Mae gennym gyfrifoldeb i ddylanwadu ar ddatblygiad plant yn gadarnhaol drwy greu amgylchedd hygyrch a chynhwysol yn ein lleoliad, un sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu pawb.' (Llywodraeth Cymru 2022a, t. 46.)<br>Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir | | | |

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio'n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 3:** **Meithrin agweddau cadarnhaol a pherthnasoedd, ac ymdeimlad o berthyn a rennir.** | • A yw'r arferion a'r adnoddau yn fy lleoliad yn atgyfnerthu neu'n herio meddwl ystrydebol? Sut ydw i'n gwybod hyn?<br>• (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 46). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael yn: [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.]<br>• Pa mor dda y mae'r adnoddau yn fy lleoliad yn cynrychioli'r amrywiaeth o gymunedau sy'n byw yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol?<br>• (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 46). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael: [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.]<br>• Pa mor dda mae'r adnoddau yn fy lleoliad yn adlewyrchu ystod o strwythurau a chefndiroedd teuluol?<br>• (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 46). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael: [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.]<br>• Ydych chi'n sicrhau bod cerddoriaeth, caneuon, rhigymau a straeon yn dod o amrywiaeth o wahanol ddiwylliannau, traddodiadau ac ieithoedd? (er enghraifft; Adnodd Nodau Natur ar gael gan Mudiad Meithrin).<br>• Ydy eich bwydlenni'n cynnwys bwyd o ddiwylliannau gwahanol?<br>• Ydych chi'n dathlu gwyliau a diwrnodau arbennig sy'n berthnasol i'ch plant, eich teuluoedd a'ch staff? Sut allech chi wella'r ystod o ddigwyddiadau a gyflwynwyd a'u dathlu ymhellach?<br>• Ydych chi'n cynllunio'n weithredol i gefnogi dealltwriaeth plant o werthoedd Cymreig sylfaenol? A yw cydraddoldeb, amrywiaeth a gwerthoedd Cymreig yn cael eu hyrwyddo'n weithredol yn y lleoliad?<br>• Ydych chi'n cynllunio'n rhagweithiol i hyrwyddo teimladau o berthyn mewn plant a'u teuluoedd?<br>• Ydy hyn yn cynnwys bod yn perthyn i'r gymuned ehangach yn hytrach na'r lleoliad ei hun? | Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir 'Dylem sicrhau bod yr amgylcheddau yn ein lleoliad yn croesawu ac yn hyrwyddo ethos Cymreig cryf. Dylent ddathlu a gwerthfawrogi amrywiaeth, a dangos cynwysoldeb' (Llywodraeth Cymru 2022a, t. 13)<br><br>Nod maes polisi Gofal Plant a Chwarae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, 'Bydd pob plentyn yn cael cyfle i archwilio a dathlu amrywiaeth hiliol mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol.' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t.128).<br><br>Edrychwch ar Lwybr Datblygu Perthyn ar gyfer Cwricwlwm lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (Llywodraeth Cymru, 2022b, t.28). | | | |

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio'n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 4:** **Rhoi arferion cydraddoldeb da (gan gynnwys recriwtio, cadw a datblygu staff) ar waith.** | • A yw pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau i fod yn gynhwysol?<br>• Pa mor aml ydw i'n asesu ein polisi cyfle cyfartal? Sut ydw i'n sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn gynhwysfawr? (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 46). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.<br>• A yw eich gweithdrefnau sefydlu yn cynnwys ymgyfarwyddo â'ch Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth?<br>• A yw'r tîm staff yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y gymuned? - Gallech gwblhau archwiliad o sgiliau, galluoedd, a phrofiad eich gweithlu presennol.<br>• A oes gan Bwyllgor y lleoliad ymwybyddiaeth o'i rôl wrth gefnogi'r lleoliad i symud tuag at ymarfer gwrth-hiliol? Ydyn nhw'n rhan o gwblhau'r pecyn cymorth gwrth-hiliaeth hwn?<br>• Ydw i wedi ystyried effaith rhagfarn anymwybodol ar ymarfer a darpariaeth? A oes angen dysgu proffesiynol ymhlith fy ymarferwyr? (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 46). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.<br>• Pa mor dda ydw i'n adnabod angen dysgu proffesiynol perthnasol i staff a pha mor dda ydw i'n ei gefnogi? e.e. mewn tegwch hil, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth? (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 46). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [ar-lein] Ar gael: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. | Safon 16 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir. 'Mae pob plentyn ac oedolyn yn cael eu trin o bwys cyfartal ac mae'r person cofrestredig yn cydymffurfio â deddfwriaeth wrthwahaniaethol berthnasol ac arfer da ym mhob maes, gan gynnwys cyflogaeth, hyfforddiant, mynediad i ofal dydd a mynediad i'r adnoddau, y gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael.' (Llywodraeth Cymru, 2023, t. 50).<br><br>Nod maes polisi Gofal Plant a Chwarae y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: 'Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol, wedi'u hadeiladu ar Gynghreiriaeth, wedi'u cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn, ac yn cael eu grymuso i nodi a mynd i'r afael ag arfer hiliol.' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t.126). | | | |

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio'n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 4:** **Rhoi arferion cydraddoldeb da (gan gynnwys recriwtio, cadw a datblygu staff) ar waith.** | • A yw cyfarfodydd staff (neu gyfarfodydd gwerthuso) yn rhoi cyfle i drafod cydraddoldeb ac amrywiaeth; i siarad am yr hyn sy'n gweithio'n dda, i rannu materion a nodi atebion?<br>• Ydych chi'n gwybod am sgiliau, gwybodaeth ac amrywiaeth eich staff?<br>• Os bydd cred grefyddol yn gwrthdaro â chredoau eich hun neu gredoau ymarferwyr eraill, a ydych chi'n cymryd gofal i beidio â chaniatáu i hyn effeithio'n negyddol ar eich perthynas â theulu'r plentyn?<br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, a ganiateir i staff gymryd amser i ffwrdd ar gyfer gwyliau crefyddol fel rhan o'u gwyliau blynyddol, ac a ydyn nhw'n gallu gwneud hynny heb deimlo eu bod yn achosi anghyfleustra?<br>• Fel tîm, a ydych chi'n trin eich gilydd â pharch ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth a hunaniaeth eich gilydd? | Safon 16 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir. 'Mae pob plentyn ac oedolyn yn cael eu trin o bwys cyfartal ac mae'r person cofrestredig yn cydymffurfio â deddfwriaeth wrthwahaniaethol berthnasol ac arfer da ym mhob maes, gan gynnwys cyflogaeth, hyfforddiant, mynediad i ofal dydd a mynediad i'r adnoddau, y gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael.' (Llywodraeth Cymru, 2023, t. 50).<br><br>Nod maes polisi Gofal Plant a Chwarae y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: 'Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol, wedi'u hadeiladu ar Gynghreiriaeth, wedi'u cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn, ac yn cael eu grymuso i nodi a mynd i'r afael ag arfer hiliol.' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t.126). | | | |

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio’n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 5:**<br><br>**Anelu at leihau a dileu anghydraddoldebau a rhwystrau sydd eisoes yn bodoli.** | ● A ydych yn sicrhau bod staff yn trafod pynciau emosiynol ac anodd fel hiliaeth neu effeithiau anoddefgarwch diwylliannol, economaidd neu grefyddol yn ein cymuned?<br><br>● A oes gan staff yr hyder a’r hyfforddiant i ymateb yn briodol i unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol pan fyddant yn digwydd?<br><br>● A yw staff yn herio sylwadau neu weithredoedd gwahaniaethol?<br><br>● Ydyn nhw’n ei gwneud hi’n glir nad yw gwahaniaethu ar unrhyw ffurf yn dderbyniol yn y lleoliad?<br><br>● Yn gyntaf, a ydyn nhw’n cynnig cysur a thawelu meddwl yr unigolyn os caiff ei dramgwyddo neu ei ofidio gan sylwadau neu weithredoedd gwahaniaethol?<br><br>● Ydyn nhw’n siarad â’r person a wnaeth wahaniaethu fel ei fod yn sylweddoli pam fod ei sylwadau neu weithredoedd yn annerbyniol?<br><br>● Ydyn nhw’n cofnodi’r digwyddiad, e.e. yn y llyfr digwyddiadau, ac yn adrodd i’r Unigolyn Cyfrifol?<br><br>● A oes gennych systemau ar waith ac a yw’r rhain yn cael eu rhannu â rhieni, fel eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am achosion o hiliaeth, aflonyddu hiliol neu erledigaeth?<br><br>● A yw rhieni’n hyderus i roi gwybod am bryderon? | Safon 16 o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir: Rhaid i bob lleoliad gael polisi cyfle cyfartal sy’n gyson â’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau cyfredol ac sy’n cael ei adolygu’n rheolaidd. Rhaid i’r holl staff a gwirfoddolwyr ddeall a gweithredu’r polisi hwn ac mae ar gael i rieni. (Llywodraeth Cymru, 2023, t. 50).<br><br>Mae ‘Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth’ Mudiad Meithrin ar gyfer lleoliadau ar gael ar safle mewnrwyd Mudiad Meithrin. | | | |

| | | Fframwaith hawliau, safonau, polisi neu gwricwlwm ar gyfer y gweithredu hwn yng Nghymru | Nid eto | Gweithio tuag at | Gweithio'n dda |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor 6:** **Cynnwys teuluoedd a'r gymuned ehangach.** | • Ydych chi'n ymgynghori â rhieni i ddarganfod a yw'r lleoliad yn gynhwysol ac yn groesawgar iddyn nhw a'u plentyn?<br>• A yw rhieni'n teimlo y gallant bob amser wneud eu teimladau, eu safbwyntiau a'u barn yn hysbys i'r staff, ac y bydd y rhain yn cael eu trin yn barchus ac yn cael eu cymryd o ddifrif?<br>• Ydych chi'n annog rhieni a theuluoedd i rannu eu cefndiroedd diwylliannol ac i ddathlu arferion a gwyliau gydag eraill yn y lleoliad, heb roi unrhyw bwysau arnyn nhw i wneud hyn?<br>• Ydych chi'n meithrin perthynas gyda chymysgedd amrywiol o deuluoedd a phobl o'r gymuned leol?<br>• Ydych chi'n gofyn i rieni, gofalwyr a staff pa ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn y gymuned ac yn canfod ffyrdd o gymryd rhan?<br>• A ydych yn sicrhau bod eich teithiau (teithiau ac ymweliadau) yn adlewyrchu amrywiaeth eich cymuned leol?<br>• A ydych yn darparu cyfleoedd anffurfiol a gwirfoddoli fel bod rhieni, aelodau estynedig o'r teulu neu aelodau o'r gymuned sydd â'r tueddfryd cywir yn cael eu huwchsgilio ar gyfer swyddi posibl a allai fod gennych yn y dyfodol? | Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>'Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei wella gan oedolion sydd...<br>• â chysylltiadau cryf â'm cartref a'm cymuned leol<br>• yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi cysylltiadau a gwella diddordebau' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 28.)<br><br>Nod maes polisi Gofal Plant a Chwarae y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: 'Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr o Gymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, i wella mynediad i leoliadau gofal plant a chwarae yn ogystal â mynediad i gyfleoedd chwarae.' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t.127). | | | |

# Adnoddau sydd ar gael:

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael gan Mudiad Meithrin i'ch cefnogi yn eich taith wrth-hiliol – mae'r rhain i'w gweld ar wefan Mudiad Meithrin: [Adnoddau Dysgu a Datblygu](#) ac maent yn cynnwys:

- Dewch i ddathlu!: Dewch i ddathlu rhai o brif wyliau crefyddol y byd! Bwriad yr adnodd hwn yw eich helpu i ddathlu gwyliau crefyddol newydd yn hyderus yn eich lleoliadau drwy gydol y flwyddyn.




- Adnodd Hyfforddi Cylch i Bawb: Beth mae bod yn lleoliad cynhwysol yn ei olygu, a sut mae gweithredu fel un? Mae'r cyflwyniad ar-lein hwn yn addas ar gyfer unrhyw ymarferydd mewn lleoliad gofal plant neu flynyddoedd cynnar, p'un a ydynt yn staff, yn aelod o'r pwyllgor, neu'n wirfoddolwyr. Mae'n bosibl dilyn y cwrs ar-lein fel grŵp o staff neu wirfoddolwyr neu gellir ei ddangos fel rhan o'r sesiwn anwytho ar gyfer staff newydd neu aelodau pwyllgor.









- Adnoddau Nodau Natur: Pwrpas Nodau Natur yw ymestyn a hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth treftadaeth Gymreig a Chymreig, gan ddathlu treftadaeth cymunedau a diwylliannau sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.







- Ein Cymru: Mae 'Cymru Ni' yn gyfres o adnoddau sy'n dathlu hanesion pobl Ddu Gymraeg.

Mae mwy o wybodaeth a chyfeiriadau hefyd at adnoddau defnyddiol ar ein tudalen 'Tegwch a Chynwysoldeb' ar y [Fewnrwyd](#) ar gyfer Aelodau Mudiad Meithrin.

# Cyfeiriadau


Belly, B. (2020) *It's never too early to talk with children about race*. Ar gael gan: https://news.yale.edu/2020/06/15/its-never-too-early-talk-children-about-race (Mynediad: 20 May 2024)

Mudiad Meithrin (2023) *Nodau Natur 2*. Ar gael gan: https://meithrin.cymru/adnoddau-dysgu-a-datblygu/ (20 Mai 2024)

Smidt, S. (2020), *Creating an Anti-Racist Culture in the Early Years: An Essential Guide for Practitioners*. Llundain: Routledge.

Llywodraeth Cymru (2021), *Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2022a), *Cwricwlwm, ar gyfer lleoliadau meithrin a ariannir nas cynhelir.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

*Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.


# Polisïau, fframweithiau a deddfwriaeth berthnasol:

- Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir | GOV. CYMRU
- Safonau a chanllawiau gofynnol cenedlaethol: gofal plant rheoledig: Safonau a chanllawiau gofynnol cenedlaethol: gofal plant rheoledig | GOV. CYMRU
- Cynllun Gweithredu Cymru wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | GOV. CYMRU
- Cymunedau, cyfraniadau a chynefin Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gweithgor Cwricwlwm Cenedlaethol newydd: Adroddiad Terfynol: Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Cyfraniadau a Chynefin yn y Gweithgor Cwricwlwm Newydd: Adroddiad terfynol | GOV. CYMRU
- Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol: Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol | GOV. CYMRU
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Testun llawn: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Testun llawn - Children's Commissioner for Wales (childcomwales.org.uk)
- Dysgu, chwarae a dysgu plentyndod cynnar yng Nghymru: Dysgu, chwarae a dysgu plentyndod cynnar yng Nghymru

Ar ôl cwblhau'r archwiliad uchod, defnyddiwch y cynllun gweithredu isod i gofnodi'r prif flaenoriaethau rydych wedi'u nodi ar gyfer eich lleoliad.

# Cynllun Gweithredu

| | Blaenoriaethau ar gyfer y 6 mis nesaf | Dyddiau: | Personau sy'n gyfrifol | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | |
| 2. | | | | |
| 3. | | | | |

| | Blaenoriaethau ar gyfer 6-12 mis nesaf | Dyddiau: | Personau sy'n gyfrifol | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | |
| 2. | | | | |
| 3. | | | | |

| | Blaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf | Dyddiau: | Personau sy'n gyfrifol | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | |
| 2. | | | | |
| 3. | | | | |

APEX
EDUCATE
ANTI-RACISM CONSULTANCY

DARPL

mudiad
meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar